# Y DINESYDD

RHIF 5 HYDREF 1973


# CANOLFAN GYFOES I'R URDD

**Daeth tyrfa o gyfeillion ewyllysgar yr Urdd ynghyd i Heol Conwy, nos Wener, Hydref 5ed, i wrando ar Cyril Hughes, Pennaeth newydd y mudiad, yn cyhoeddi agor y Ganolfan ar 'i newydd wedd ar ôl cwblhau'r gwelliannau.**

**Fe gafwyd tipyn o adloniant i gychwyn, yng ngofal dihafal Hywel Gwynfryn – caneuon gan Barti'r Wenallt (Lyn a Heulwen Jones, ac Alun a Rhiannon Evans) i gyfeiliant Eirian Williams, Telynores Ardudwy; cerdd dant gan ran o'r côr cerdd dant ifanc – Nia Humphreys, Siwan ac Elin Williams, Lyn Daniel a Carys Hall Williams; dwy ddawns werin gan Barti Dawns yr Aelwyd; ac i orffen, y 'Kyrie' o Offeren Schubert, y gwaith newydd y mae Côr yr Aelwyd wrthi'n ei baratoi.**



*Cyril Hughes*



*Côr Aelwyd Caerdydd*

Yna fe groesawyd y gwahoddedigion gan Garwyn Davies, Cadeirydd Cyngor yr Urdd yng Nghaerdydd. Roedd yn falch o weld Syr Cenydd a'r Fonesig Treharne, y Fonesig Edwards a Mr. Prys Edwards, Mr. Don Richards (swyddog ieuenctid y ddinas), Mr. Cyril Cule (y Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg) y Cynghorwr Norman Lloyd Edwards, ac wrth gwrs, Mr. Cyril Hughes, Pennaeth newydd yr Urdd a'i wraig.

Wrth gydnabod yr holl gefnogaeth a ddaeth i wireddu'r freuddwyd o gael y ganolfan hon, fe ddymunodd Gerwyn yn dda ar ran aelodau Urdd Caerdydd i ddau o staff y mudiad a fu'r un mor ddisigl eu hymroddiad wrth iddyn nhw ymddeol, sef Mr. R. E. Griffith a Miss Gwennant Davies. Roedden nhw, meddai, yng ngeiriau bachgen bach a ymddangosodd ym mhasiant ail-iaith Ysgol Tonyrywen dro'n ôl, yn ei siwt nofio brin, "Wedi rhoi y cwbwl i'r Urdd". A chan gyflwyno Cyril Hughes, gobeithiai Garwyn gael cefnogaeth lwyr gan Gymry Caerdydd i'r ganolfan.

**ARAITH CYRIL HUGHES Cyfarwyddwr yr Urdd:**

*"Rown yn edrych ar wyneb pryderus Owen Edwards tra roedd y dawnswyr gwerin wrthi'n ysgwyd y llawr newydd,"* cychwynnodd Cyril Hughes yn ysgyfala, *"ac fe benderfynais os Owen fyddai'r cyntaf allan o'r neuadd 'ma mai fi fyddai'r ail!"*

Ond roedd y llawr wedi dal yn gadarn, yr un mor gadarn â'r criw bach o weithwyr a phwyllgorwyr selog a fu'n llafurio ar ran y Ganolfan er 1966 – rhai fel Mrs. Mefus Evans (ysgrifennydd cyntaf y Pwyllgor Cyllid a thrysorydd). D. Gwyn Jones (Cadeirydd Cynnar) Glan Roberts a Gwilym Roberts, y diweddar Keri Harris Hughes, a Bob Roberts, Cadeirydd presennol y Pwyllgor Cyllid. Digon anodd a digysur fu'r pwyllgorau cynnar o flaen llond-llygad-deryn o dân nwy mewn ystafell ddiflas, a dyledion ariannol yn bygwth o bob cyfeiriad. Ond diolch i gymorth hael Pwyllgor Addysg y Ddinas a'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth a dalodd rhyw £9,500 o'r £14,000 oedd ei angen, i ffrindiau'r Aelwyd a'r Côr a Chymorth Don Richards (y swyddog ieuenctid) ac i weledigaeth a gweithgarwch John Evans (BBC) a Bob Roberts yn trefnu Gêm fawr y Jiwbili (rhwng tîm rygbi Barry John a Carwyn James) fe gyrhaeddwyd yn ddiogel i'r lan, a'r noson hon yn goron y penllanw.

Fe ddaeth y casglu cyson diddiwedd i ben am y tro – casglu fu'n gymaint o fwrn nes i un enaid o Gymro yn y ddinas ochneidio, "Rwy'n teimlo mod i wedi prynu'r b . . . lle erbyn hyn!" – ac fe allai'r mudiad a'r genedl ymhyfrydu yng Nghanolfan Prifddinas yr Urdd, a atgyweiriwyd mor chwaethus gan y pensaer a'i gwmni.

Bellach rhaid oedd edrych at y dyfodol – roedd gweithwyr fel Garwyn Davies a Catrin Davies, a'r warden newydd Ian ap Dewi yn barod i fwrw ati. Ar ôl gweld ffeithiau didostur y Cyfrifiad, mae'n amlwg i bawb bod 'na her a brwydr o'n blaen. Ymfalchïwn yn yr ewyllys da sydd tuag at yr iaith gan y di-Gymraeg, a defnyddiwn y Ganolfan fel "springboard" i ymosod ar Forgannwg o Ebrill ymlaen i'w Chymreigio. Mae'r ddelfryd a'r weledigaeth gennym, ac yn awr wele un o'r arfau hyfrytaf yn ein dwylo – cartref a chanolfan.

Ac ar yr un pryd, mae mudiad Urdd Gobaith Cymru ei hun yn barod i gychwyn ar gyfnod newydd o grwsad yn ei hanes – ymgyrch i ddenu mwy a mwy o Gymry i'w rhengoedd, trwy gymorth mwy o gyrsiau Cymraeg llafar ar hyd yr wythnos yn y gwersylloedd, ac ati.

Diolchai i athrawon Caerdydd am eu cymorth eisoes yn y gweithgareddau hyn, ac i Bwyllgor Addysg y ddinas yn eu rhyddhau o'r ysgol (yr hyn na wna pob sir).

Caffed pob plentyn ysgol feithrin, cynradd ac eilradd Gymraeg, ac Adran ac Aelwyd o'r Urdd i'w ddifyrru mewn oriau hamdden ac yna fe allwn ddechrau defnyddio'r iaith fel cyfrwng i fyw ac nid fel testun i drafod ei thranc.

# AGWEDD ARALL

*"Neithiwr cefais freuddwyd mawr,*
*Gweld y byd a'i ben i lawr". . .*

**Wel, nid y byd yn hollol, na breuddwyd chwaith ond digwyddiadau real agoriad swyddogol Canolfan yr Urdd, Heol Conwy.**

**Doeddwn i ddim yn synnu fod Pennaeth y ganolfan wedi cael ei adael allan o ddarlun "swyddogol" y bobl sy'n cyfrif, ar ddechrau'r cyfarfod ond pan welais aelod Toriaidd Cyngor y Ddinas yn sefyll yno yn wen o glust i glust fe fu bron imi a syrthio drwy llawr y neuadd (a hyn cyn yr agoriad swyddogol). - "Aelod o'r Urdd, gwersyllwr ers cyn co'!"**

Er ein bod wedi ein diddanu gan ddoniau fel Hywel Gwynfryn, Dawnswyr a chôr yr Aelwyd – Parti'r Wenallt etc. Mae'n debyg nad oedd Cyril Hughes yn fodlon. Roedd yn rhaid iddo yntau hefyd ein diddori. Cafwyd araith yn llawn o guro cefnau a chanmol ganddo, a da oedd hynny wrth gwrs. Mae llawer o bobl wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd ac mae'r dyled yn fawr iddynt. Dechreuwyd wedyn ysywaeth ganmol cyngor Dinesig Caerdydd a'n dyrchafu i entrychion llawer uwch na ffug nenfydau'r ganolfan. Carwn gael fwy o eglurhad ar y canmoliaeth a roed i'r cyngor parthed y Gymraeg - "arloeswyr" meddai C.H.

Fe wn fod Caerdydd ar hyn o bryd yn arloesi polisi gwbwl andwyol i ddyfodol yr iaith Gymraeg yn ein Prifddinas.

Dychwelodd synwyr i'w araith wrth iddo annog y dorf i uno'n un corff i ymladd dros ddyfodol yr iaith ac i gyd weithio i wneud yr adeilad ar ei newydd wedd yn ganolfan nid yn unig i Gaerdydd ond i Dde Cymru. "Nice one Cyril" medd Hywel Gwynfryn.

Doeddech chi ddim yn disgwyl inni orffen ar nodyn mor uchel, nac oeddech. Chewch chi ddim mo'ch siomi oherwydd cyn fod y seddau wedi cael amser i oeri fe ddrylliwyd araith "undod" C. H. yn racs, mewn dwy ffordd. Yn gyntaf cawsom wybodaeth fod cwpaned o de wedi ei ddarparu – i'r gwahoddedigion mewn un ystafell a gweddill y dyrfa mewn ystafell arall, oedd y brechdannau'n fwy blasus, y coffi'n gryfach, neu oedd angen safon arbennig ar y werin? - Iwniti - scersli biliv!

Yn ail ar ol geiriau tanllyd C. H. fe'm taniwyd i ruthro i'r car a gafael mewn deiseb Cymdeithas yr Iaith i'r cynghorau newydd. Rhuthrais yn ol yn eiddgar gan glywed llais Gronw yn fy nghlustiau yn fy nghanmol. Gofynais i amryw, yn boleit, a oeddynt am arwyddo. Cefais beth lwyddiant, ond goeliech chi fod dwy ferch, un a'i henw wedi ymddangos yn y papur clodwiw hwn mwy nag unwaith, wedi gwrthod arwyddo! Rwy'n sicr fy mod yn defnyddio'r sebon iawn!

Do fe welais y byd a'i dîn i fyny y noson honno!

Sian Myrddin.

*(parhad ar dudalen 8.)*

# CLWB CINIO'R BARRI

**Y mae gwŷr y Cylch Cinio wedi dechrau ar eu gwledda unwaith eto a mwynhawyd y cinio cyntaf nos Fercher, 26ain Medi. Y siaradwr oedd Mr. Hywel D. Roberts, Caerdydd, a'i destun oedd "Y Bardd R. Williams Parry". Cafwyd gwedd newydd ar y bardd a'i waith drwy adnabyddiaeth bersonol y siaradwr ohono.**

Llywydd y Cylch eleni yw Mr. B. J. Griffiths, yr Is-Lywydd yw Mr. Huw Jeffries a'r Trysorydd yw Mr. Gwilym Williams. Ar ol gweithredu fel Ysgrifennydd o'r adeg y sefydlwyd y Cylch yn 1968, trosglwyddodd Mr. Ifor Thomas y gwaith i Mr. Gareth Evans. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mr. Thomas am y gwaith trylwyr a wnaeth ar hyd y blynyddoedd. Cyfrifoldeb Mr. Islwyn Jones yw sicrhau siaradwyr felly os cewch ganiad ar y ffôn ganddo, byddwch yn gwybod beth yw'r neges!

Am 7.30 p.m. ar nos Fercher olaf y mis yng Ngwesty'r Mount Sorrell, y Barri, y cynhelir y ciniawau ac os ydych am ymuno a ni, cysylltwch a Mr. Gareth Evans, 35 Heol St. Nicholas, Y Barri (Ffon: Y Barri 2178). Gallwn eich sicrhau o nosweithiau hwyliog iawn allan o grafangau'r gwragedd – er y cant hwythau ymuno a ni unwaith y flwyddyn ym mis Tachwedd.

# CYMOD CADARN

Teyrnged i Saunders Lewis, ar drothwy ei benblwydd yn 80 oed.

**Wedi amryw brofiadau diflas o neuaddau gorlawn a llawer yn methu cael mynediad i'w perfformiadau yn y brifddinas, dyma Gwmni Theatr Cymru yn mentro llwyfannu ei rhaglen deyrnged yn Neuadd Goffa'r Barri. Ond siomedig iawn oedd y cynlluniad gyda o leia draean o'r neuadd heb ei llanw. A 'siomedig' oedd adwaith y mwyafrif o'r rhai y bum i'n sgwrsio a nhw.**

**Mae'r rhaglen, a luniwyd gan Emyr Humphreys, yn hollol wahanol i'r math o raglen deyrnged arferol yr ydym mor gyfarwydd a hi yn y Gymraeg: gwŷr mewn *sweaters* du a gwragedd gosgeiddig mewn patrwm weddol statig yn darllen a chanu gwaith gwrthrych y deyrnged. Ond dyma, y tro hwn, raglen hynod uchel geisiol gyda thema bendant yn dilyn gyrfa Mr. Lewis fel gwleidydd a gŵr cyhoeddus o ddiwedd y Rhyfel Byd cyntaf hyd 1961. 'Drama ddogfen,' medd y nodiadau rhaglen, 'am hynt delfryd'. Delfrydiaeth a darodd yn od ar genedl oedd yn dal dan lesmair Lloyd George a'i syniadau gwahanol am ddelfrydiaeth a dyletswydd. Ac, ym 1961 o leia, ymddangosai ei fywyd ar drywydd y ddelfryd yn fethiant llwyr.**

Bu awdur y rhaglen wrthi'n gweu ffaith o dychymyg i'w gilydd, gan ddefnyddio talpiau o hanes y gwrthrych a dyfynnu'n helaeth o ysgrifau'r *Llenor* gynt, a gweu darnau o'i ddramâu a'i gerddi a'i ysgrifau drwyddynt. Olrheiniwyd ei yrfa drwy ei eiriau ei hun a rhai ei gyfoeswyr yn cael eu hactio ochr yn ochr a darnau cyfatebol o'i ddramâu lle ceir yr un tyndra, yr un her, yr un tân ysol a losgai ym mhersonoliaeth Mr. Lewis. Gwaith anodd, rwy'n cyfaddef, oedd llwyfannu hyn yn llwyddiannus, a gwaith yn galw am gynhyrchu llawn dychymyg, gan ddefnyddio pob dyfais lwyfan sy ar gael er mwyn gwneud yr arbrawf yn gredadwy. Yn lle hynny, bodlonwyd ar gyflwyno statig (*sweaters* llwyd y tro hwn!) a phob cymeriad bron yn dweud ei bisyn, aros ennyd ac wedyn troi fel milwr a gadael y llwyfan. Byddai gwell defnydd o oleuo wedi medru hepgor hyn yn hawdd.

A siomedig iawn oedd yr actio, yn enwedig yn y darnau o ddramâu Mr. Lewis. Collwyd y tân, yr ias a'r cyffro a gysylltir â'i waith, ac â'r cyfnod arbennig hwn yn ei hanes. Ar yr ochr arall roedd hi'n noson ddiddorol sy'n siwr o'n hel i chwilota mwy i'r holl hanes, a chafwyd ambell bortread byr cofiadwy iawn gan rai actorion. Yr oedd Huw Tudor yn wych ym mhob un o'i rannau, Clive Roberts yn dda fel Kluge, ond nid fel Llew Llaw Gyffes, a Huw Ceredig yn ei rannau yntau. Cafwyd ambell drawiad hyfryd gan Glyn Williams ac roedd Charles Williams, fel arfer, yn taro deuddeg.

T. James Jones a actiai ran Mr. Lewis ac roedd yn wych wrth adrodd ei farddoniaeth, ond, i mi, yn rhy lonydd-dawel i bortreadu'r 'Dyn Angenrheidiol'.

Lenna Pritchard Jones.


## Ffair Nadolig

PLAID CYMRU

SADWRN, TACHWEDD 24ain, 1973

am 2 o'r gloch

NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD

agorir gan

Dr. a Mrs. GWYNFOR EVANS

MYNEDIAD 5c.



CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

yn cyflwyno

## "WELSH DYLAN"

arddangosfa ugain mlynedd ar ôl marwolaeth y bardd

THEATR SHERMAN
Heol Senghennydd
CAERDYDD
6 - 23 Tachwedd

Dangosir y ffilm "Under Milk Wood" yn Theatr Sherman ar nos Lun, Tachwedd 5 am 7.30 p.m.

Gellir gweld yr arddangosfa ar ôl hynny yn y canolfannau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Abertawe | 22 Rhagfyr – 12 Ionawr |
| Aberystwyth | 23 Ionawr – 16 Chwefror |
| Llanelli | 27 Chwefror – 23 Mawrth |
| Yr Wyddgrug | 3 Ebrill – 27 Ebrill |
| Bangor | 4 Mai – 25 Mai |


# PENBLWYDD HAPUS




## Ysgolion Meithrin

**Trefnydd a Swyddfa Newydd**

Bellach mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin Cymru wedi penodi trefnydd i Gymru, sef Miss Gaenor Edwards, o Sir Fflint. Mae hi'n athrawes ysgol feithrin brofiadol o dan y gyfundrefn addysg, ac yn aelod weithgar o'r Urdd yn y sir honno.

Fe fydd yn cychwyn ar ei gwaith pwysig ar Ionawr 1af.

I gydfynd a'r holl waith yma, agorwyd swyddfa ganolog y Mudiad yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conway, lle sy bellach ar ei newydd wedd. Ar hyn o bryd mae'r swyddfa yng ngofal Mrs. Bethan Roberts, Radyr, ysgrifenyddes bresennol y mudiad. Rhif ffôn y Swyddfa: Caerdydd 36113.

Croesewir pob ymholiad a phob cymorth – ac fe groesewir pob cyfraniad ariannol, boed fawr, boed fechan, a breichiau agored.

YSGOLION MEITHRIN CAERDYDD

Daw adroddiad hynod i law ynglŷn â sefyllfa bresennol ysgolion Meithrin Caerdydd. Y mae rhif y plant wedi dal ei dir, ond lle dair blynedd yn ol roedd 70% o'r disgyblion bach yn Gymry Cymraeg, bellach fe ddisgynnodd y rhif hwnnw i 38%. Hynny yw, erbyn hyn, am bob **un** Cymro Cymraeg mae **dau** di-Gymraeg.

Cyfrifiad digalon efallai oedd y cyfrifiad – ond mae gobaith yn y sir, ac mae angen mwy a mwy o genhadu ymhlith ein cyfeillion a'n cymdogion di Gymraeg.

## EBENEZER

Mae 'na goffi bob bore Sadwrn i unrhyw yn sy'n sychedig wrth siopa a gwario a rhuthro. Coffi da, cryf, yng ngofal gwragedd y capel – yr elw at achosion da. Beth am daro i mewn?

Bore Sadwrn, Tachwedd 17, fe fydd 'na arwerthiant yn y capel.

## Merched y Wawr

Cangen Caerdydd

Cafwyd cychwyn brwd i'r tymor pan ddaeth llond yr ystafell fawr yng Nghanolfan yr Urdd ynghyd i wrando ar Marion Eames yn son am y ffordd yr aeth hi ati i sgrifennu "Y Stafell Ddirgel" a "Y Rhandir Mwyn". Sgwrs ddiddorol, yn adlewyrchu trylwyredd a synhwyrusrwydd yr awdures yn ei gwaith, ac yn llawn o wybodaethau difyr, newydd i'r gwrandawyr – pwy, er enghraifft, a dybiai bod 'na waith alabaster ym Mhenarth ar un adeg?

Diolchwyd yn ddeheuig i'r siaradwr gan yr islywydd Eleri Rogers, Culverhouse Cross, a ddwedodd iddi weld plas Dolserau ym Meirion trwy lygaid newydd yr haf hwn ar ol darllen y llyfrau hyn, a sylweddoli'n llawn mesur y fenter a ddangosodd y Crynwyr Cynnar wrth groesi cefnfor eang i gefndir newydd (o'u cornel fach ddiarffordd o Gymru).

Llywyddwyd y noson gan Mrs. Myra Jenkins, y llywydd am eleni, a ddiolchodd i Mrs. Mair Elvet Thomas a'r aelodau am eu hymdrech yn ennill tlws yr Ymgyrch lyfrau am y flwyddyn hon.

Erfyniwyd am ragor o ferched i ymddiddori yn y dosbarth gwnio trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Glan y Nant ar Nos Lun.

Croeso i ragor fyth o aelodau newydd i'r cyfarfod nesa, Hydref 23 i wrando ar Jacob Davies yn sgwrsio am 'Henebau – Antiques'.

Ysgrifenyddes:
Mrs. Margaret Evans.
Trysoryddes:
Mrs. Myfanwy Jenkins.

### DOSBARTH GWNIO CYMRAEG GLAN-Y-NANT

Bob Nos Lun. 7 p.m. Athrawes Mrs. Ann Ladd, gynt ar staff Rhydfelen. Dowch a chroeso – hwyl a chlonc wrth wnio.

### CYNGERDD BLYNYDDOL Y CRWYS

**Bu cyngerdd blynyddol Eglwys Heol y Crwys yn uchafbwynt yng nghalendr crefyddol Caerdydd ers amser bellach. Eleni, mae'r côr, sydd yn dathlu ei ddegfed pen blwydd, yn ymarfer ar gyfer perfformiad o'r Meseia gan Handel.**

**Edrychwn ymlaen at berfformiad o safon uchel fel arfer ar gyfer yr achlysur arbennig hwn. Cynhelir y cyngerdd ar Nos Sadwrn, Rhagfyr 1af, yn yr Eglwys, o dan arweiniad Mr. T. Ellis James, organydd a chôrfeistr yr Eglwys. Cyhoeddir manylion pellach yn y man.**

### CYMDEITHAS RHIENI YSGOL RHYDFELEN CANGEN CAERDYDD

Un o brif ddigwyddiadau tymor y Gymdeithas eleni bydd perfformiad côr yr ysgol o'r oratorio "Elias" a gynhelir yng nghapel Tabernacl, nos Wener, Tachwedd 14fed. Mae nifer o aelodau'r gangen eisioes wedi ymuno a'r côr yn ei ymarferiadau yn yr ysgol. A chroeso cynnes i gantorion eraill o Gaerdydd i ddod atynt.

Trefnir weddill y rhaglen ar gyfer y tymor yn fuan ac edrychwn ymlaen am gwmni a chefnogaeth holl aelodau'r gangen.

Swyddogion am eleni – Cadeirydd: Eirion Lewis; Trysorydd: Selwyn Jones; Ysgrifennydd: Avril Lewis, Glynrhosyn, 3 Derwen Road, Cyncoed (751831).

### RHAGHYSBYSIADAU

Cymdeithas Heol y Crwys, Crwys Road Caerdydd.

Tachwedd 7fed 7.30 p.m.
Panel y Chwaraeon yng ngofal Mr. John Evans.

Tachwedd 21ain 7.30 p.m.
Darlith Prifardd Gwilym R. Tilsley. Croeso cynnes iawn i bawb.

Perfformiad o'r "Elias" gan gôr a rhieni plant Ysgol Rhydfelen. Nos WENER RHAGFYR 14eg YN EGLWYS TABERNACL CAERDYDD.

# PRYNWCH LYFRAU

**Gwobrau am werthu llyfrau Cymraeg: ac am ddysgu Cymraeg.**

**Ar y 14eg o Orffennaf, eleni, roedd seremoni urddasol a phwysig yn Ysgol y Gader, Dolgellau.**

**Yno am hanner awr wedi dau roedd Cyfarfod Gwobrwyo Cystadlaethau'r Cwisiau a gynhaliwyd yn 1972-3 i Ysgolion Uwchradd, i ieuenctid unigol, i Ddysgwyr ac i dimau Eglwysi; a Chystadlaethau'r Ymgyrch Lyfrau, 1973. Y Cyngor Llyfrau Cymraeg a drefnodd y cyfan – y cystadlaethau a'r gwobrwyo.**

Y wraig wadd oedd Miss Marion Eames, un o ddinasyddion Caerdydd erbyn hyn, ac fel y gŵyr pawb awdur y llyfrau adnabyddus *Y Stafell Ddirgel* a *Rhandir Mwyn*. Priodol iawn oedd ei bod hi wedi ei chael i siarad yno am ei bod yn enedigol o Ddolgellau, ac am fod y Crynwyr, y ceir eu hanes yn ei llyfrau godidog, yn dod o'r un ardal.

Daeth Ysgol Rhydfelen yn ail yng nghystadleuaeth y Cwis i Ysgolion Uwchradd, Ysgol Ramadeg y Merched, Caerffili'n ail yng nghystadleuaeth y Cwis Ail-iaith dros 15 ac Ysgol Uwchradd Stanwell, Penarth yn gydradd bedwerydd yn y Cwis ail-iaith dan 15. Aeth y mwyafrif o'r gwobrau eraill i Ogledd Cymru. Da gennym ddweud bod y Cwisiau hyn yn dod yn fwy poblogaidd bob blwyddyn gan roi cyfle i'r Dysgwyr ac i'r rhai sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf ddysgu a gloywi eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, peth anhraethol bwysig er ffyniant y diwylliant Cymraeg.

Mae gwerthiant llyfrau Cymraeg wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd, hefyd, ac yr ydym yn ddyledus yn gyntaf i'r Urdd am hyn trwy eu cynllun blynyddol o gynnal Ymgyrch Lyfrau rhwng y Nadolig a'r Pasg. Yn awr mae'r cyfan dan aden y Cyngor Llyfrau Cymraeg a rhoddir gwobrau bob blwyddyn i'r rhai a werthodd lyfrau – tair gwobr i bob adran – yr Adran Gyffredinol, Adran Ysgolion Cynradd (dros 100) ac Adran Ysgolion Cynradd (dan 100). Daeth dwy o'r gwobrau cyntaf i Gaerdydd eleni; i Ysgol Gynradd Bryntaf am werthu gwerth £350 o lyfrau ac i Gangen Caerdydd o Ferched y Wawr am werthu gwerth £209 o lyfrau. Dyma'r trydydd tro i Ysgol Bryntaf ennill y wobr gyntaf a'r tro cyntaf i Ferched y Wawr (ar ôl ennill y drydydd wobr y llynedd). Daeth dim un wobr arall i Dde Cymru er i lyfrau Cymraeg gael eu gwerthu mewn llawer lle arall.

Cofiwch i gyd ein bod am wella'n gwerthiant o lyfrau Cymraeg bob blwyddyn ac y daw'r plant ac aelodau o Ferched y Wawr ar eich gofyn wedi'r Nadolig. **Prynwch** gymaint ag a fedrwch o **lyfrau** Cymraeg a **darllenwch nhw, a gofalwch** fod eich plant yn eu **darllen.** Dyna un peth ymarferol ac eithriadol o bwysig y gallwn i gyd ei wneud i hybu'r Gymraeg, ein trysor gwerthfawrocaf.

## ORIEL

Mae angen cynorthwywyr sy'n siarad Cymraeg i weithio rhan-amser yn siop lyfrau/oriel Cyngor **Celfyddydau** Cymru yn **Charles** Street, Caerdydd, **a** fydd yn agor ym mis **Rhagfyr.** Cyflog: 65c. yr **awr.** Am fanylion pellach, **cysylltir** â Mr. Robert **Harris,** Cyngor Celfyddydau **Cymru,** Stryd yr Amgueddfa, **Caerdydd.** (ffôn: 32722).

# COLEG CYNCOED

Chwi Gymry Caerdydd. Ydych chi wedi cael digon ar aros i mewn bob nos yn gwylio'r teledu? Ydy nosweithiau meithion y gaeaf yn debyg o'ch diflasu? Wel, os ydy hyn yn wir, beth am ddod a ychydig o amrywiaeth i'ch bywydau yn ystod yr wythnos, a phresenoli'ch hun yng Nghymdeithas Gymraeg Coleg Addysg Dinas Caerdydd bob nos Iau am 8 o'r gloch.

Ni chyfyngir y Gymdeithas i'n myfyrwyr yn unig, po fwyaf y gynulleidfa gorau gyd. Mae gennym raglen amrywiol - dyma eitemau'r tymor cyntaf:-

Hydref 4 - Twmpath Dawns - Galwr Gwilym Roberts.
Hydref 11 - Noson Lawen gan y Myfyrwyr.
Hydref 18 - Noson Amrywiol dan ofal Ann Rosser.
Hydref 25 - Darlith "Gweld Rhyfeddodau" - Beryl Hall.
Tachwedd 1 - Helfa Drysor.
Tachwedd 8 - Noson Agored i Aelwyd Caerdydd a'r Dysgwyr.
Tachwedd 15 - Billy Raybould yn son am y maes rygbi.
Tachwedd 22 - Hwyl Staff.
Tachwedd 29 - Agored.
Rhagfyr 6 - Drama gan Gwmni'r Coleg.
Rhagfyr 13 - Parti Nadolig.

Felly, edrychwn 'mlaen at eich gweld yn ystod y misoedd tywyll! Y lle - y Coleg ar y Bryn. Yr Amser, 8 o'r gloch bob nos Iau.

Llywydd Cymdeithas Gymraeg y coleg eleni yw John Jones, myfyriwr o'r bedwaredd flwyddyn, sy wedi'i eni a'i fagu yn un o nythleoedd y llenorion yng Ngheredigion, sef Ffair Rhos. Ei ysgrifenyddes yw Catherine Owen o Landdona, ym Mon, a'r llywydd staff yw Miss Ann Rosser o Lansamlet, gynt. Mae nawr yn byw yng Nghaerdydd ac yn uwchddarlithydd yn yr Adran Gymraeg.

Mae gwahoddiad i bawb ymuno a gweithgareddau Cymdeithas Gymraeg y coleg. Fe fyddai'n agoriad llygad i lawer ohonoch sy'n rhy chwannog i feirniadu'r "hen stiwdents'n!" achos, yn ystod tymor y gaeaf maen nhw'n mynd trwy raglen ddiwylliannol dra ddiddorol.

## CLWB CINIO'R DYNION

*Bellach mae'r cylch wedi ail gydio am y gaeaf. Cynhelir y cyfarfod ar amser cinio y Llun cynta yn y mis – bydd y nesaf ar Dachwedd 5ed – a hefyd weithiau fin nos. Ar nos Fercher, Tachwedd 21ain, y siaradwr fydd Cyril Hughes, Prif Drefnydd Newydd yr Urdd. Hefyd bwriedir cynnal noson y Gwragedd eleni ar Nos Sadwrn, Tachwedd 17, yn Neuadd y Pentre, Rhiwbeina – noson fawr o win a chaws a'r dynion yn gofalu'n gyfangwbl am y trefniadau.*

*Y swyddogion eleni yw:*
*Llywydd* — *Y Parch. G. Noakes*
*Islywydd* — ***Dr. M. Evans***
*Ysgrifennydd* ***Emrys*** *Jarman*
*Trysorydd* — *Brian J. Evans.*

***Os oes*** *unrhywun a diddordeb yng* ***ngweithgareddau'r*** *Clwb Cinio ymholer a'r ysgrifennydd, 48, Windermere Ave., Y Rhath, Caerdydd.*



*Pa un o'r rhain sy'n canu allan o diwn?*

# TONTEG 'TO

Cynhelir hwyrnos yn neuadd y pentre Efailisaf ar y 7fed o Ragfyr i groesawi'r Nadolig. Cwrw, Cawl, bwyd ag adloniant yng nghwmni parti dawns aelwyd Caerdydd ag Alun Evans "Heddiw". Os am noson draddodiadol Gymreig i groesawu'r Nadolig felly danfonwch bunt am docyn nawr i Randal Isaacs neu Eurig Wyn
32 Ffordd Tywyn
TONTEG
Pontypridd.

Aeth cynrychiolaeth o athrawon ardal Tonteg i goleg Harlech ar ol y Steddfod Genedlaethol i gynorthwyo yn y cwrs ar ddysgu Cymraeg a gynhaliwyd yng ngholeg Harlech. Yn eu plith roedd Cathryn Hughes, Rhys Llwyd, Randal Isaacs, Penri Jos, Geraint Huws, a Gareth Jones.

Bu Geraint a Cathryn Huws yn yr Yswistir eto. Dyma ail ymweliad Mr. a Mrs. Huws i'r wlad. Mae'r stori ar led eu bod wedi prynu ty haf yno.

Apwyntiwyd Meredydd Williams, athro yn ysgol Gymraeg Gartholwg yn ymchwilydd i adran ysgolion HTV Cymru. Mae'n fwy adnabyddus efallai fel cyn aelod o'r grwp pop-gwerin "Y Derwyddon". Mae eisioes wedi cychwyn ei waith.

Ers dechrau'r tymor newydd mae rhai athrawon wedi newid ysgol. Symudodd Keith Davies i ysgol Gwauncelyn a Randal Isaacs o ysgol Heol y Celyn i ysgol Gymraeg Caerffili, Randal yw'r unig athro ar staff gyfan o athrawesau, – boi lwcus!

# DA BOCH

Mae Mr. a Mrs. David James (Tanwen Jarman gynt) wedi mynd am ddwy flynedd i Doylestown Pennsylvania (ger Philadelphia) – y ddau fel athrawon mewn ysgol breifat.

Dymuniadau gorau i Mr. a Mrs. Gareth Ivorian Jones, Glen a Lisa wrth ymfudo i Washington. Mae Gareth wedi cael swydd gyda Banc y Byd (World Bank). Mae Cynthia yn ferch i Mr. a Mrs. Edgar Davies, Heol y Bryn, Rhiwbina. Mae ei chwaer Margaret, priod Ieuan (mab Mr. a Mrs. Arwel Hughes) ar hyn o bryd yn yn byw yng Nghanada.


GWASG PRIFYSGOL CYMRU
Yn Eisiau

YSGRIFENYDDES
yn adran

GWASG PRIFYSGOL CYMRU
Merthyr House, James St.
Caerdydd

Dylai'r ymgeiswyr fod yn hyddysg mewn llaw-fer a theipio, a bod ganddynt wybodaeth o'r iaith Gymraeg. Telir cyflog yn ol oedran a phrofiad o fewn graddfa yn codi o £1,353 - £1,542 y flwyddyn. Dylid anfon ceisiadau i'r Cofrestrydd, Cofrestrfa'r Brifysgol, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NS, yn rhoi manylion ynglyn ag oedran, addysg a phrofiad, ac yn rhoi enw dau berson y gallwn ymgynghori a nhw, erbyn 5ed o Dachwedd 1973.


# Y GYMDEITHAS WYDDONOL

RHAGLEN AM 1973-4

| | |
|---|---|
| Tachwedd 14eg | Asid Sytrig mewn Bwydydd (Mrs. Elonwy Wright, Caerdydd) |
| Rhagfyr 5ed | Problemau Mathemategol. (Dr. Gareth Roberts, Trefforest) |
| Ionawr 16eg | Codi Pontydd Cymru (Dr. M. Barr, Trefforest) Cyfarfod ym Mholitechnig Morgannwg. |
| Chwefror 13eg | Clefydau'r Cymalau (Dr. Peter Williams, Caerdydd) |
| Mawrth 13eg | Papurau gan Fyfyrwyr Ymchwil |
| Mai 15fed | Gwyddoniaeth yn y Brifysgol Agored |

*Cynhelir pob cyfarfod (ac eithrio'r un a nodir) yn yr Adeilad Newydd, UWIST, Parc Cathays, Caerdydd am 7.15 p.m. Manylion pellach gan Ken Evans, Adran Mathemateg, Politechnig Morgannwg. Ffon, Pontypridd 405133 est. 2260.*

# MAES Y PLANT




## Capten Scott o Gaerdydd

Erbyn hyn, mae pobl yn gyfarwydd a theithiau i'r gofod, gyda dynion yn byw am wythnosau mewn labordai ymhell uwchben y ddaear.

Ar ddechrau'r ganrif, roedd llawer o ddynion yn teithio dros y byd yn darganfod tiroedd newydd o hyd ac o hyd, a chwaraeodd prifddinas Caerdydd ran bwysig yn yr anturiaethau hyn.

Ychydig o son sydd y tu allan i Gaerdydd i'r ffaith bod Captain Robert Falcon Scott, R.N., wedi penderfynu dod, gyda'i gyfeillion, i hwylio o borthladd y ddinas ar y fordaith fawr i'r Antartig yn 1910. Dyma ble cawson nhw gyflenwad o lo i'r llong.

Wedi'r fordaith yma, siom fawr oedd yn eu disgwyl oherwydd iddynt ddarganfod bod gwr o Norwy - Ronald Amundsen - wedi cyrraedd yno fis yn gynharach.

Yn fuan wedi gadael Pegwn y De ar y ffordd yn ol i'r llong, bu farw un o'i ffrindiau, Captain Laurence Oates, a chyn bo hir gwyddai'r gweddill eu bod nhw, hefyd, ar fin marw. Cyn marw, ysgrifennodd Scott yn ei ddyddiadur yn dweud nad oedd yn edifarhau teithio yr holl ffordd, ac roedd am farw fel arwr. A dyna a wnaeth.

Wedi i'r newyddion am farwolaeth Scott a'i gyfeillion gyrraedd Caerdydd, penderfynwyd adeiladu cofeb iddynt ym Mharc y Rhath. Mae'r gofeb ar ffurf goleudy gyda model o'i long, "Terra Nova", arni - a dyma'r llong oedd yn y llun.

Tybed a wyddech chi fod coffa am Captain Scott mewn ystafell yng Ngwesty'r Royal yn Stryd y Santes Fair? Yn yr ystafell (a elwir yn awr yn "Alexandra Ballroom" mae plac yn dwyn y geiriau, "In this room on Monday, June 13, 1910, Captian R. F. Scott, R.N., attended his last public banquet before sailing from Cardiff on the "Terra Nova" on his tragic voyage to the Antarctic".

Tybed a fyddai'n syniad cael arddangosfa o fywyd a gwaith Capten Scott a'i gyfeillion yng Nghaerdydd, gan gynnwys ail adeiladu llong ar ffurf y "Terra Nova" fel wnaed a'r "Golden Hind" - llong Syr Francis Drake a fydd yn hwylio ar draws Mor yr Iwerydd i America yn y dyfodol agos?

YN ANGEN....
LLYFR GARDDIO
J. E. JONES
Manylion i Dewi Turfon,
90 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd




## Ble Mae Hwn?


Fe fydd y rhai craff yn gwybod yn iawn! Fe fydd y rhai sy'n hoffi sgrifennu'n anfon ataf fi. Ond rwy i am newid ychydig ar amodau'r gystadleuaeth. Fe wyddoch imi ddweud y tro o'r blaen y byddai'r wobr yn mynd i'r ymgais gyntaf a dderbyniwn - a dyna sy wedi digwydd, ond yn anffodus roedd y rheol yn annheg am un rheswm pwysig. Dyw'r Dinesydd ddim yn cyrraedd pawb ar yr un pryd. Credwch neu beidio, roeddwn i wedi cael yr atebion i'r gystadleuaeth ymhell cyn i mi gael copi o'r dinesydd fy hunan - ac fe wn i y gall rhai ohonoch chi gael eich copi o leiaf bythefnos o flaen y lleill. Wnaiff hyn mo'r tro. A dyma fydd yn digwydd yn y dyfodol. Fe fyddaf fi'n cadw pob ateb a ddaw i law nes yr adeg i baratoi'r rhifyn nesaf o'r Dinesydd. Fe fyddaf yn rhoi rhif i bob ymgais ac yn rhoi'r cyfan mewn het. Perchennog y rhif lwcus fydd yn cael y wobr. Felly, craffwch ar y llun, chwiliwch am bapur a phensil, sgrifennwch yr ateb a'i anfon i fi.

PROBLEM!

Fe welodd Sam Slic bedwar darn o bapur ar lawr 'i swyddfa un diwrnod, a medde fe, "Rwy'n siŵr y gallwn i wneud sgwâr perffaith gyda'r pedwar darn yma!"

Amhosib, oedd ateb ei ysgrifenyddes - ond fe lwyddodd Sam Slic am ei fod e'n dditectydd mor dda. Nawr, dyma fi wedi tynnu llun y pedwar darn ichi. Torrwch nhw o'r papur a'u gosod nhw wrth ei gilydd ar ffurf sgwâr.

Os methwch chi, trowch i'r ateb ar dudalen **8**.



# Y GYSTADLEUAETH





**Fe fyddwch chi'n cofio i mi osod cystadleuaeth yn Y Dinesydd diwethaf - a'r gamp oedd adnabod llun. Fe gefais i dri ateb a'r tri yn gywir. Da iawn, Melfyn Wyn Hopkins, wyth oed o 55, Three Arches Avenue, Llanishen a hefyd Eryl Smith, eto'n wyth oed o 33, Foreland Road, Eglwysnewydd - y ddau o Gaerdydd. Ond mae'r wobr, sef llyfr Cymraeg yn mynd i Rhian Lewis am mai ei hymgais hi a ddaeth yma gyntaf. Dyma ichi lun o Rhian (hi sy yn y canol) gyda'i mam a'i chwaer. Mwynhau tipyn o wyliau'n hwylio ar y dwr.**

Gan fod Rhian yn hoffi sgrifennu, fe ofynnais iddi hi roi peth o'i hanes i fi a hefyd ychydig o wybodaeth am wrthrych y llun - sef darn uchaf twr cloc sy yn llyn y Rhath.

Dyma stori Rhian amdani'i hun.

Bum yn ysgol Bryn-taf am saith mlynedd, ond nawr rwyf yn nosbarth 3o yn Rhydfelen. Fy niddordebau yw chwarae offerynnau cerddorol. Rwyf yn chwarae'r piano, y ffidil a'r recorder a'r gitar. Rwy'n hoffi darllen llyfrau - yn enwedig llyfrau Agatha Christie a Maureen Peters. Rwy'n hoffi canu yn aelod o gor yr ysgol sy'n canu yn "Elias" gan Mendelssohn. Mae'r cor yn perfformio yng Nghaerdydd ac ym Merthyr ym mis Rhagfyr - felly cofiwch ddod i wrando arnon ni.

CYSODI ELGAN
*Papurau Newydd, Llyfrau, Pamphledi etc. etc.*
*Os ydych am fwy o wybodaeth galwch i fewn yn*
**9, FITZALAN PLACE, CAERDYDD. Ffôn: 25869.**

*FFENESTRI MAWR*

*FFENESTRI BACH*

MAE GENNYM DDEWIS GYDA'R HELAETHAF YN NE CYMRU O DDEFNYDDIAU AR GYFER LLENNI GAN GYNNWYS ENWAU'R GOREUON FEL "SANDERSON" "FISBA" "TEXTRA" A LLAWER I UN ARALL.
DEWIS HEFYD O BOLION, GWIFRAU A RHEILIAU LLENNI.
Galwch i weld
**Dan Evans**
*Y BARRI 4242*

# FFAIR FIHANGEL BRYNTAF

**Pysgota, chwarae golf, peledu tuniau, cael pas ar injan ddyrnu, a'r cyfan mewn un prynhawn. Dyna fu hanes y plant o bob oedran a gyrchodd Ysgol Bryntaf y Sadwrn olaf ym mis Medi. Y bwriad i ddechrau oedd cynnal ffair yn nhymor yr Haf, ond gan amled y ffeiriau bryd hynny penderfynwyd cael ffair Fihangel yn yr Hydref. Gwreiddiòldeb a hyblygrwydd i'w edmygu.**

Yng ngwyneb haul, llygad goleuni, y gobeithiwyd ei threfnu, ond oerodd yr hin ac i mewn yn yr ysgol y bu'n rhaid ei chael. Pob peth ond yr injan ddyrnu. Mae pendraw byd yn oed ar hynawsedd y Prifathro. Yno felly y daeth y lluoedd, yn blant, yn fabanod, yn famau, a thadau, yn deidiau a neiniau, a gosgordd o fodrybedd ac ewythrod i'w canlyn. Y neuadd dan ei sang a'r coridorau'n gwegian.

Estynnodd y Prifathro groeso i bawb ac yna cyflwynwyd Dr. Mary Williams, a fu gynt yng Nghadair Ffrangeg Coleg y Brifysgol Abertawe, i agor y ffair. Daeth y foneddiges annwyl hon, er waetha'i hoedran, yr holl ffordd o Aberystwyth yn unswydd i'r perwyl hon a chafwyd sgwrs ddifyr ganddi'n son am ei phlentyndod yn dysgu Ffrangeg ar lin ei mam, hithau wedi dysgu'r iaith gan deulu o ffoaduriaid Ffrengig yng Nghaernarfon, o bobman, ganol y ganrif ddiwethaf.

Apeliodd am fwy o le i'r Gymraeg ym mhob cylch yn ein gwlad ac am gyflenwad digonol o lyfrau ac ati i'n plant.

Wedi agor o'r ffair yn ffurfiol felly, gorymdeithiodd y plant i'r neuadd mewn gwisgoedd ffansi, ugeiniau onid cannoedd ohonynt, a chafodd y beirniad, sef Mrs. Jones Davies, Mrs. Carys Humphreys, a Mrs. Barry John, a Mr. Hywel Gwynfryn yn lladmerydd iddynt, gryn drafferth i ddewis y goreuon o'u plith.

Ar ol i Mrs. Einir Williams, gwraig llywydd y pwyllgor rhieni, gyflwyno'r gwobrwyon i'r enillwyr bu Clwb Gymnasteg Mynachty sy'n cael defnyddio'r ysgol gyda'r nos, yn dangos eu campau.

Chwalodd pawb wedyn i'r gwahanol ystafelloedd, rhai o'r mamau i sipian te, rhai o'r tadau i'w glowcio, rhai i ddangos eu medr gyda'r peli golff, rhai gyda'r peli ping pong. Medrodd rai, a'u dwylo digryn, ddilyn wifren drofaus heb ganu'r gloch. Llwyddodd eraill i argyhoeddi panel o feirniaid sobr o wychder ffurf eu migyrnau. Bu'r gweddill yn ymweld yn llechwraidd a Madam Darogana er mwyn treiddio i ddirgelion eu dyfodol ac ennill y blaen ar y Dinesydd. "Ba enaid wyr her y daith?" Amryw bellach.

Yn y diwedd fe aeth pawb adre (hyd y gwyddom) a hynny'n hapus luddedig, bob un a'i bag plastig a'i bysgodyn yn ei law. Ni chwalwyd o'r blaen gynifer o nythod morgrug yng Nghaerdydd ag a chwalwyd y noson honno. Mae dyled y plant yn fawr i'r Prifathro Mr. R. T. Evans ac i ddyrnaid o wragedd gweithgar, a'i gwyr i'w canlyn, fu wrthi am fisoedd yn paratoi ac yn brysur tu hwnt ddiwrnod y ffair.

Diben y cyfan oedd casglu arian i sefydlu llyfrgell yn yr ysgol. Cafwyd elw o £150 a mwy i'r coffrau yn ystod y prynhawn ond apelir yn daer at ddarllenwyr caredig y Dinesydd, yn arbennig hen rieni, os oes ganddynt lyfrau sy bellach islaw sylw'r plant, i'w hanfon i'r ysgol er mwyn i genhedlaeth newydd gael defnydd ohonynt.

Arfon Williams
(Llywydd y Pwyllgor Rhieni)

Dyma restr o enillwyr cystadleuaeth y Wisg Ffansi.

1) Sian Grigg – "Diddy Girl" Bryntaf.
2) Nia Sian Williams – Indiad Coch
3) Kathryn Edwards – Cenhinen Fwyaf Cymru.
Sara Thomas – Hen Fenyw fach Cydweli.

Uned 2.

1) Eleri Morgan – Ledi Pryce Morgan, Miss Caerdydd 1873.
2) Sion Lewis – Hitler
Richard Grigg – Charlie Chaplin
3) Amlyn Hedd Rees – Y Bwgan Brain
Sion Jobbins – Bachgen Bach o Dincer.

Uned 3.

1) Ceri Eames – Computer Bryntaf
2) Eleri Pierce Lewis – Disgybl hynaf Bryntaf
Catherine Owen – Miss Meithryn.
3) Elsbeth Mai Jones – "Turkish Delight"
Sioned Elias – Modryb Elin Euog


Uned 4.

1) Sian Elin Jenkins – Clown
2) Sian Thomas – Mathemateg
3) Aled Jones – Astronaut Ifanc
Jane Williams – Misprint

Grwpiau

1) Bethan ac Arwyn Davies, Bethan ac Arwel Williams – Ein Teulu Ni.
2) Wyn Innes a Geraint Lewis – "Hims, Ancient and Modern."
3) Aled Evans a Huw Davies – Sherlock Holmes a Dr. Watson. Sian a Gerwyn Lloyd Jones a Marc Robert Hodge – "Cadwch Brydain yn Daclus"

*



*Saif Capel y Groeswen yn agos i hen blasdy Hendre Denny ger Caerffili nepell o gapel enwog arall - Capel y Watfford. Dyma'r capel Cymraeg cyntaf a godwyd gan y Methodistiaid yng Nghymru - yn 1742 ac yno, ynghyd ag ym Mhlas y Watfford y cynhaliwyd Sasiwn enwog 1743. Roedd Thomas Price, Plas y Watfford yn un o ddilynwyr Howell Harris ac y mae yno lun diweddar o'r Sasiwn honno yn dangos George Whitfield ynghanol Howell Harris, Daniel Rowlands, Williams Pantycelyn ac eraill.*

*Yn ystod y ffrae a fu rhwng Howell Harris a Daniel Rowlands collodd y Methodistiaid eu gafael ar y lle a throes yn raddol yn eglwys Annibynnol.*

*Bu gweinidogion enwog ar y capel - William Edwards, adeiladwr pont enwog Pontypridd ("adeiladydd y ddau fyd" fel y'i gelwir ar ei gofeb y tu ol i'r pulpud") Gruffydd Hughes, Moses Rees, Caledfryn, a'r 'unben annibynnol' hwnnw - Tawelfryn Thomas. Ymhlith y llu enwog y can Watcyn Wyn amdanynt yn yr englyn canlynol y mae Caledfryn, Gurnos a Ieuan Gwynedd.*

*"Llwythog yw'r pridd bob llathen – o lwch beirdd*
*Gloywach byd, – mae'r awen*
*A rhyw barch i'r dywarchen*
*A'r gro sy ar y groes wen."*

## CYMDEITHAS RHIENI BRYNTAF

Ar ol Ffair Fihangel lwyddianus mae Pwyllgor Cymdeithas Rieni, Bryntaf yn edrych ymlaen at flwyddyn lewyrchus. Maent wedi bod wrthi yn paratoi rhaglen am y flwyddyn a dyma'r gweithgareddau pendant sydd ar y gweill:–

1. Ar y 9fed o Dachwedd mae Ryan yn rhoi noson o adloniant yn Neuadd Reardon Smith. A gaf i gymeryd y cyfle yma i ddweud fydd y noson yn fwy addas i oedolion nag i blant.
2. Mae 'na Ffair Lyfrau wedi ei threfnu erbyn diwedd Tachwedd.
3. Yn gynnar yn y flwyddyn newydd mae y Ginio a Dawns flynyddol i'w chynnal.

Y swyddogion am y flwyddyn yma yw:–

Llywydd: Mr. Arfon Williams.
Is-Lywydd: Mr. Emyr Jenkins.
Trysorydd: Mr. John Howell.
Ysgrifennydd Ariannol: Mrs. Marianne Grigg.
Ysgrifennydd: Mr. Alwyn Jones.
Pwyllgor: Mrs. Margaret Evans, Mrs. Margaret Gilbey, Mrs. Lena Pritchard Jones, Dr. R. Potter, Mr. Stiff, Mr. Gareth L. Jones, Mr. Alun Jones a Mr. Rhys Lewis. Mae Mr. Donald White, fel islywydd anrhydeddus yn aelod o'r Pwyllgor hefyd.

W. Arwyn Jones.

## CYMDEITHAS DEWI SANT

Llywydd: Parch. George Noakes
Cadeirydd: Mr. Jeffrey Hughes
Trysorydd: Mrs. Megan Davies
Ysgrifennydd: Mr. J. Brynmor Jones.

Pob cyfarfod i ddechrau am 7.30 o'r gloch.

Tachwedd 8
Penigampogwis
Rhagfyr 13
Gyrfa Chwist
1974
Ionawr 10
Noson yng nghwmni Mr. Gareth Jones ac eraill.
Chwefror 14
Noson y Siroedd
Mawrth 14
Swper Gŵyl Dewi
Gŵr Gwadd: Mr. Brinley Richards, M.A. (Archdderwydd Cymru)

## CYHOEDDIADAU

Tachwedd 10:
Coleg Addysg Cyncoed. Ysgol Undydd i athrawon ysgolion Meithrin.

Tachwedd 16:
Caws a Gwin. Ty Maeth. Trefnwyd gan Ysgol Feithrin Rhiwbeina. Tocynnau 75c.

Siwrne dda i Gareth, mab Mr. a Mrs. Lyn Howell, Rhiwbeina wrth ddychwelyd i Bogota, Colombia am gyfnod byr o dan nawdd Adran Ddatblygu Tramor y llywodraeth.

# CÔR POLIFFONIG CAERDYDD

*Arweinydd:* Roy Bohana.

## CYFRES GYNGHERDDAU YN EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF

1. **Sadwrn, Hydref 20, 1973 am 8.0 p.m.**
Vesperae Solennes – Mozart
Paukenmesse – Haydn

2. **Sadwrn, Rhagfyr 8, 1973 am 8.0 p.m.**
Cerddoriaeth ar gyfer y Nadolig.

3. **Sadwrn, Chwefror 16, 1974 am 8.0 p.m.**
Cerddoriaeth y cyfnod poliffonig.
*Arweinydd:* Marin Constantin.

4. **Sadwrn, Mawrth 9, 1974 am 7.30 p.m.**
Messiah – Handel.

Tocynnau cyfres £2.50, noddwyr £5.00, tocynnau sengl 50c. a 75c. ar gael oddi wrth Mr. J. M. Williams, Argoed, Craig Pen-llin, Y Bont-faen, rhif tel. Y Bont-faen 3623.

**GWENT CAR HIRE**

**Ceir, Faniau, Tryciau, Bysiau Bychain**
**Am awr, am ddiwrnod, am wythnos**

Caerdydd Tel. 43151/2
Penybont Tel. 2719
Abertawe Tel. 53169
Aberdâr Tel. 2964
Casnewydd Tel. 55004
Pontypridd Tel. 402410
Barri Tel. 77030
Ystrad Mynach Tel. 812112

# GAIR NEU DDAU O BENARTH

**Efallai nad yw Penarth yn dwyn i'r meddwl ddelwedd o Gymreigrwydd. Lle bach pur Seisnig ei iaith a'i ymlyniadau ydyw. Er hynny y mae yma Gymry da a phybyr. Erbyn hyn y mae yma nid yn unig Gymdeithas Gymraeg sy'n cwrdd yn gyson bob mis yn ystod y gaeaf ond Ysgol Gymraeg ac Ysgol Feithrin Gymraeg hefyd. Y mae yma ddosbarthiadau niferus o bobl ifainc a rhai heb fod mor ifainc yn cyfarfod bob wythnos dros y gaeaf yn Ysgol St. Cyres, yn dysgu Cymraeg.**

Ffurfiwyd y Gymdeithas Gymraeg yma tua mis Tachwedd 1967 pan gyfarfu rhyw ychydig o'r Cymry i ystyried yn gyntaf dim symud i sefydlu Ysgol Gymraeg yma ac i geisio yr un pryd sefydlu Cymdeithas Gymraeg i ddwyn y Cymry i gyfathrach cyson â'i gilydd. Penodwyd Pwyllgor o'r cyfan a oedd yn bresennol gyd âg Ethel Davies yn Llywydd, Maxwell Evans, a fu'n gyfrifol am alw'r cyfarfod, yn Ysgrifennydd a Mrs. H. D. Owen priod y Parch H. D. Owen yn Drysorydd. Trefnwyd i gyfarfod y dydd Mercher cyntaf ym mhob mis a thynnwyd allan raglen fer ar gyfer y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr. Mynd ymlaen wedyn am y gweddill o'r flwyddyn o gyfarfod i gyfarfod heb raglen ond fel y trefnid o gyfarfod i gyfarfod. Bu'r Gymdeithas o'r cychwyn yn bur lewyrchus ac y mae o gant i gant a hanner o aelodau'n perthyn iddi. Yr arfer yw cael dwy ddarlith yn ystod y tymor a nosweithiau amrywiaethol y gweddill o'r tymor ynghyd â dathlu Gwyl Ddewi a Gwylnos Galan i groesawu'r flwyddyn newydd. Penodir Llywydd Anrhydeddus i'r Gymdeithas bob blwyddyn a bu'r Gymdeithas yn ffodus i gael gwasanaeth y gwŷr enwog a ganlyn yn nhrefn eu penodiad, sef, Saunders Lewis yn gyntaf un a wedyn y Prifardd J. M. Edwards, Syr D. J. Davies, Alun Oldfield Davies, a John Rowley. Eleni y Llywydd Anrhydeddus yw y Dr Meredydd Evans. Eleni hefyd y ddau ddarlithydd yw Jeffrey Hughes, athro yng Nghaerdydd sy'n hannu o Sir Gaernarfon a fydd yn ein tywys drwy'r hen sir hanesyddol a rhamantus honno ar ffilm ac yna yn y flwyddyn newydd ceir cwmni Hywel D. Roberts pennaeth adran addysg Coleg Cyncoed a darlith ganddo yntau. Bydd noson o Pawb yn ei dro a noson arall o Seiad holi a byddys yn dathlu Dydd Gwyl Dewi Sant yng nghwmni ein Llywydd Anrhydeddus fel ein gwr gwâdd. Y noson agoriadol noson o glonc a chwpaned o de a lluniaeth ysgafn a chroesawu aelodau newydd gyd â chân ac adrodd ac ambell stori fydd honno. Y mae Cymry Penarth yn edrych ymlaen yn awchus at agoriad y tymor a disgwylir gweld ysgoldy'r Trinity yn llawn. Yr Ysgrifennydd o'r cychwyn yw Maxwell Evans ac y mae dyled y Gymdeithas yn fawr iddo ef fel y mae hefyd i'r Trysorydd diflino presennol Miss Eirlys Davies. Rhaid nodi, hefyd, fod Cymdeithas Gymraeg gref a llewyrchus iawn yn Ninas Powis ac y mae'r ddwy Gymdeithas yn cydweithio'n hapus â'i gilydd ac yn uno â'i gilydd ar achlysuron arbennig. Llynedd buom mewn cyd-gyfarfod a Chymdeithas Gymraeg Y Bontfaen ac eleni byddwn yn cyfarfod a Chymdeithas Gymraeg Y Barri.



*Esgyrn Dafydd a Tessa (chwith), y grwp buddugol yng nghystadleuaeth "Can i Gymru". Mae Philip a Richard Edwards yn byw yn Heol-y-Coed Rhiwbeina a Wendy Davies yn byw yn Cyncoed. Disgybl yn ysgol Rhydfelen yw Tessa.*



## LLONGYFARCHIADAU:

Llongyfarchion i Billy a Vivienne Raybould, Heath Park Ave., Y Waun, ar enedigaeth merch eu cyntaf anedig.

Llongyfarchion i Owen a Morfudd Jones, Ffordd Ewenni, Rhydypennau ar enedigaeth bachgen, Gwyn, brawd i Wendy a Nia.

Llongyfarchion i Mr. a Mrs. Victor Taylor (gynt Nia Phillips merch y diweddar T. O. Phillips, trefnydd iaith y ddinas a Mrs. Phillips Llysfaen gynt, nawr o Rhydypennau) ar enedigaeth mab, Nicholas ym Mae Caswell.

I Wayne a Sheila Owen Jones, Manor Way, ganwyd bachgen, Huw ap Owen Jones, brawd i Lisa.

I Iolo ac Eiryl Walters, Rhiwbeina, ganwyd mab, Aled.

## FESTRI HEOL Y CRWYS

**Bellach fe agorwyd festri capel Heol y Crwys ar ei newydd wedd, a phobman yn olau, braf. I ddathlu'r achlysur cafwyd y delyneg hon gan un o feirdd cedyrn y ddinas:**

*Rhy lwyd oedd y festri i *Lloyd a'i griw*
*A dyna fynd ati i newid y lliw,*
*Ni welir ei thebyg yn festrioedd y dre,*
*Yng nghartrefi'r saint nac ym mhyrth y ne',*
*Fydd rhaid mynd i'r Angel neu'r Royal neu'r Parc*
*I weld cystal decor - o safon Top Rank!*

*Cydnebir a diolch gwaith Lloyd a'i griw,*
*Yn ei horiau hamdden yn newid y lliw,*
*A diolch am awydd y sawl a fu*
*Yn ddyfal addurno ein festri ni*
*Gan gredu yn ffyddiog mai ysbryd y nef*
*A'u hysgogodd i weithio yn ei gynteddoedd ef.*

*Er cystal y paentio gan Lloyd a'i griw*
*Ar ysgol a thrawst yn newid y lliw*
*Does debyg i liwio'r Efengyl Fawr*
*Ar gymeriad dyn ar hyd daear lawr*
*O! bydded i liwiau rhinweddol y y Gair*
*Ein gwisgo yn harddwch y Nefol Aer.*

*M. P.*

** Lloyd Evans, Llandaf.*

## CLWB Y CYMRIC


Nid yw tim cyntaf Clwb Cymric wedi ennill Cwpan Cymru, nac ychwaith wedi cynrychioli Cymru yng Nghwpan Ewrop – dim eto beth bynnag! Ond ar ddechrau'r tymor mae ganddo rywbeth sy'n gyffredin â thim Caerdydd, sef saith pwynt o saith gêm. Ar ôl chwarae saith gêm mewn llai na mis mae'r canlyniadau'n weddol – Ennill tair, colli tair, ac un gêm gyfartal. Rhaid cofio fod dechrau tymor bob amser yn anodd am nad yw bechgyn y colegau wedi dychwelyd. Ychwanegwyd at ein trafferth eleni gydag anafiadau i rai o'n sêr disgleiriaf! Anafodd Rhodri ei glun. Mêt - fadruddyn ei ben glin - madruddyn Mêt! – Madruddyn a "Dafydd y gwas ddim yn iach" – wedi torri ei goes mewn tri lle, yn chwarae gêm gyfeillgar yn Sir Fôn. – Gêm gyfeillgar yn Sir Fôn? Byth!

Penodwyd Gerwyn Williams yn gapten yr ail dim ac mae'r tim hwn hefyd wedi cael dechrau boddhaol gyda buddugoliaeth dda o 4–1 yn erbyn Cossacks ac un pwynt derbyniol iawn yn erbyn Rhiwbeina, tim na chollodd gêm hyd yn hyn.

Gyda dyfodiad bechgyn y colegau gobeithir gweld y ddau dim yn ychwanegu at eu pwyntiau presennol yn ystod y mis nesaf.

*Gair bach am ymarfer: Cymerwch fantais o'r cyfle hwn i ymlacio ac i ymuno ag aelodau'r clwb bob nos Fercher yn ysgol ganol Cantonian am 7 o'r gloch.*

**Mynnwch eich tocynnau i'r gymanfa isod oddiwrth Sian Edwards, 20, Heol Maryport, y Rhath, Caerdydd.**

YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

**Ni yw'r arbenigwyr**

**Sleep & Light Centre**

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.
NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.



cymanfa
CODI'R TO

Noson o gyd ganu'r hen gerddi o
dan arweiniad RYAN DAVIES a MEREDYDD EVANS
Ceir cyflwyniadau hefyd gan GANTORION ARDWYN a'r DILIAU
Cyfeilyddion - GERAINT JONES ac A. D. THOMAS

**NOS SADWRN, TACHWEDD 24ain am 7.30**
yn
**NEUADD CORY**

Tocynnau i oedolion – 50c
i blant – 25c

*Yr elw at 'Y Dinesydd' eich papur lleol*

## TONTEG

Llwyddiant:
Llongyfarchiadau i Mr. Randal Isaacs ar ei lwyddiant yng nghystadleuaeth dawnsio gwerin unigol yn yr Wyl Dawnsio gwerin a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngroeg. Roedd dawnswyr gwerin o bob rhan o'r byd yn bresennol ac fe ddaeth Randal yn 12fed allan o 86 am ei gyflwyniad dihafal o ddawns y glocsen. Dywedir gan rhai sylwedyddion y ddawns mai ef oedd y gorau ac y byddai'n sicr o fod wedi ennill oni bai iddo golli ei ysgub wythnos yn gynt yng Nghlwb Rygbi Beddau. Mae'n amlwg ei fod dan anfantais dirfawr gyda'i ysgub newydd. Bwriada yn awr roi'r gorau i glocsio a chanolbwyntio ar ei hobi newydd - gwneud powlenni Disgwylir ei weld maes o law yn disgleirio yn y maes yma hefyd.

Ymadawiad:
Gadawyd bwlch mawr yng Nghymdeithas y Cylch pan ymadawodd Ifan Bebb a'r teulu yn ol i ardal Bangor. Derbyniodd Ifan swydd gyda RTZ yn Sir Fôn. Deellir fod y cwmni'n trefnu gwyliau iddo yn Ne Affrig yn saethu Llewod!

CYLCH GODRE'R GARTH

Cafwyd cynulliad sylweddol i noson agoriadol y cylch. Cafwyd darlith gan Dr. Meredydd Evans, Caerdydd, ar ganu gwerin Morgannwg. Yn ystod y tymor ceir darlithoedd gan Mr. Vincent Phillips a Mr. Gwynedd Pierce. Apwyntiwyd Mr. Penri Jones yn gadeirydd, Mr. Rhys Llwyd yn drysorydd, Mr. Geraint Huws a'i wraig brydweddol yn ysgrifenyddion. Etholwyd Mr. Gwyn Jarvis a Mr. Gwyn Griffiths ar y pwyllgor hefyd.,

YN OL I'R COLEG

Llongyfarchiadau i Mr. Twrog Jones a Mrs. Sue Davies ar gael eu derbyn i goleg y Barri. Mae Mrs. Davies yn dilyn cwrs carlam siarad Cymraeg i athrawon a Mr. Jones yntau yn astudio am ei fagloriaeth mewn addysg. Gwelwyd fod ei ddawn fel chwaraewr dartiau wedi gwella'n gyflym iawn yn ystod y dair wythnos diweddar.

SWYDD NEWYDD

Croesaw mawr i Eirug Wyn a Gill nol o'i gwyliau yn Iwerddon lle buont yn ymlacio ar ol y Steddfod. Clywyd fod Eirug wedi derbyn swydd fel "bownser" yn y Top Rank ar ol cael blas ar y gwaith yn Rhuthin. Yno bu o wasanaeth clodwiw i dafarnwr y "Wine Vaults". Ymysg y rhai a daflodd allan roedd un o gyfalafwyr enwocaf y byd cyhoeddi Cymraeg a oedd fel arfer wedi mynd dros ben llestri. Na fydd dim trafferth mewn tafarn tra bydd Eirug a'i gyhyrau o gwmpas.

YSGOLION MEITHRIN

Ail agorodd y ddwy ysgol feithrin yn Efail Isaf a Phentre'r Eglwys. Mae nifer mawr o blant yn mynychu'r ddwy a dymunwn bob llwyddiant i'r athrawon ymroddgar yn eu gwaith. Eleni apwyntiwyd dwy athrawes newydd sef Mrs. Audrey Davies a Mrs. Ann Llwyd Elis Jones. Dymunir yn dda i Mrs. Rees ar ei hymddeoliad ar ôl blynyddoedd o wasanaeth.

## CROESO

*Prif Swyddfa U.C.A.C.,*
*Ty'r Cymry,*
*11 Heol Gordon,*
*CAERDYDD.*
*CF2 3AJ.*

*Annwyl Gyfeillion,*

*Fel cadeirydd cangen Caerdydd o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru mae'n bleser croesawu athrawon a myfyrwyr newydd i'r brifddinas gan ddymuno'n dda ichi am y flwyddyn ysgol/golegol newydd. Croeso n'ol hefyd i bawb arall o'u trwmgwsg!*

*Rydym yn ffodus yma o gael nifer helaeth o swyddogion cenedlaethol yr Undeb yn byw yn y brifddinas neu yn yr ardaloedd o amgylch, ac yn barod bob amser i gynorthwyo, cynghori neu drafod unrhyw fater. Yng Nghaerdydd, wrth gwrs, mae calon yr undeb - y brif Swyddfa, dan ofalaeth yr Ysgrifennydd Gweinydd Eric Evans, B.A. Gyrrwch ato am unrhyw wybodaeth - Aelodaeth; Cyfreithiol; Yswiriant Ceir, Ty, Bywyd etc., Arwystl (mortgage) Cyflogau; Grantiau; Cyrsiau; Ymarfer dysgu; memoranda; llenyddiaeth yr Undeb; Offer clyweled; Bwletin, ac unrhyw fater proffesiynol arall.*

*'Rydym fel cangen, eisioes wedi croesawu'r athrawon newydd yn swyddogol i Gaerdydd, drwy gynnal ein te croeso arferol. Cynhaliwyd y te eleni, ar nos Fawrth, Medi 18fed ym moethusrwydd Gwesty'r Angel.*

*Cafwyd anerchiad gan Gerallt C. Jones, Ll.B. Maesteg, Ysgrifennydd Adran Cyfraith yr Undeb. Cafwyd gair hefyd gan:*
*Mr. Moelwyn Preece*
*Ysgol Uwchradd Llanishen.*
*Mr. Gwilym Humphreys -*
*Prifathro Ysgol Uwchradd Rhydfelen.*
*Mr. Penri Treharne -*
*Y Barri - Aelod o'r Pwyllgor Gwaith.*
*Dr. R. Elwyn Hughes -*
*Ysgrifennydd y Colegau.*
*- rhestr sy' unwaith eto'n dangos diddordeb ag ymroddiad Swyddogion Cenedlaethol yng ngweithgareddau'r canghenau.*

*Gobeithir darparu rhaglen gymdeithasol, a gweithgareddau cyffredinol yn ymwneud a materion proffesiynol ac undebol yn ystod yr wythnosau nesaf, felly, gwyliwch y posteri a dewch yn llu i'n cyfarfodydd!*

*Pob dymuniad da,*
*Ken Williams,*
*Cadeirydd Cangen Caerdydd, U.C.A.C.*

## CLECS

**PENODIAD:**
Penodwyd Ifor Rowlands, mab Mr. a Mrs. Alun Rowlands, Afallon, Denes Close, Llandaf, yn ddarlithydd ar staff Coleg y Brifysgol Abertawe.

**GWELLA:**
Da clywed bod Nia, merch y Barnwr a Mrs. Dewi Watcyn Powell, Radyr yn gwella o'i salwch yn ystod yr haf, ac wedi dychwelyd i Goleg Aberystwyth.

**I'R COLEG:**
Aeth Dewi, mab ieuengaf Mr. a Mrs. Hywel D. Roberts, Cyncoed, i Brifysgol Lerpwl i ddilyn cwrs Astudiaethau Celtaidd.

**I YSBYTY RHYDLAFAR:**
Dymuniadau gorau i Delyth, merch Mr. a Mrs. John Ewart Jones, Rhiwbeina wrth gychwyn ar ei gyrfa fel nyrs yn Ysbyty Rhydlafar.

## THE WELSH LANGUAGE TODAY

Golygydd: Meic Stephens.
Cyhoeddwyd gan Wasg Gomer.
Pris: £3.25.

Priodol iawn, ar ôl clywed canlyniadau'r cyfrifiad, ynglŷn â'i iaith, yw crybwyll y llyfr arbennig yma a gyhoeddwyd ddechrau'r haf. Ceir ynddo bymtheg o erthyglau ar bynciau y mae'r iaith ynglŷn â hwy, fel crefydd, addysg, cyfraith, newyddiadwriaeth, gwleidyddiaeth a llywodraeth. Lleolir y Gymraeg yng nghyd destun ieithoedd bychain Gorllewin Ewrop, a cheir hefyd hanes yr iaith o'i chychwyn cyntaf. Rhoddir sylw teilwng i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac i'r holl ymdrechion dros y canrifoedd i hybu'r iaith.

Yn fyr, mae'n lyfr sy'n stôr o wybodaeth nid yn unig gogyfer a'r rhai di-Gymraeg ond hefyd i'r rhai ohonom nad ydym yn gwerthfawrogi cyfoeth ein hiaith a'n diwylliant, na'r argyfwng sy'n ei gwynebu na'r golled ddifrifol o'i gweld yn marw.

Mae'n lyfr sydd wedi ei gynhyrchu'n foddhaol yn enwedig felly'r siaced lwch ac yn ôl Gwasg Gomer fe werthwyd tua 900 o gopiau hyd yma ond disgwylir y bydd ffigyrau'r cyfrifiad yn chwyddo mwy ar y gwerthiant.

## HWYL!

Hwyl i Mr. a Mrs. Buckley Wyn Jones wrth symud o Heol Pantbach, Rhiwbeina, yn ol i'r Gogledd. Roedd Brenda, awdures straeon i blant, gynt ar staff y Cydbwyllgor Addysg yng Nghaerdydd, a'i gwr yn un o weithwyr Cwmni Theatr Cymru.

Hefyd symudodd Glynne ac Eryl Thomas a'r bychan o Benarth yn ol i Ddyffryn Nantlle.



*Roedd gan Hiwbyrt un fel hyn ar ôl dod yn ôl o Langrannog.*

CYMDEITHAS LENYDDOL CAERDYDD

Cyfarfod Mis Tachwedd yng Ngwesty'r Parc. Dafydd Glyn Jones yn trafod Dramau Saunders Lewis.

## Cymrodorion y Barri

Dechreuwyd ar weithgareddau'r gaeaf, nos Fawrth 25ain Medi, gyda darlith gan y Dr. Gwynfor Evans. Testun ei ddarlith oedd, "Cymru Fu, Cymru Fydd". Cafwyd crynodeb eglur a hynod o effeithiol o hanes Cymru o'r oesoedd cynnar hyd ein cyfnod ni. Cadeirydd y noson oedd Llywydd y Gymdeithas am eleni, Mr. Emlyn Hughes. Mae Mr. Hughes a'i bwyllgor wedi trefnu rhaglen hynod o ddiddorol ar ein cyfer eleni eto a chwblhawyd y trefniadau gan Mrs. Blodwen Jenkins, yr Ysgrifennydd mwyaf effeithiol a gweithgar y gallem ddymuno ei gael.

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.0 p.m. nos Lun, 15fed Hydref pan geir noson yng ngofal y Parchedig a Mrs. Gwyn Erfyl Jones, Caerdydd. Y mis canlynol, ar Dachwedd 13eg, daw'r Dr. Ilid Anthony o Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan atom i'n hannerch.

Cynhelir y cyfarfodydd yn Festri Capel Bethesda, High St., y Barri ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno a ni yno.





AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

**Amgueddfa Werin Cymru**

SAIN FFAGAN

**Teleffon Caerdydd 561357-8**

**Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlân Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre 'rywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru. Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith ac os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.**

**Gellwch gael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.**

* **Mynediad:** Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
Pensiynwyr a phlant (o dan 16) 5c
Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw
* **Maes Parcio:** Bysiau 15c Ceir Preifat 10c Beiciau Modur 5c
* **Dyddiau'r wythnos:** Ebrill-Medi—10 a.m.-7 p.m.
Hydref-Mawrth—10 a.m.-5 p.m.
* **Suliau:** Agorir am 2.30 p.m.
* **Llawlyfrau** (Cymraeg neu Saesneg) ar gael am 10c yr un (16c trwy'r post)

**Caeir dydd cyn y Nadolig, dydd Nadolig, trannoeth y Nadolig a Dydd Calan.**

# Lluniau'r Noson Fawr



*Ian ap Dewi (canol) y warden newydd.*

**Ian ap Dewi,** Warden cyntaf Canolfan yr Urdd.

Fe gychwynnodd Ian ap Dewi ar ei waith fel warden ar ddechrau Medi, ac y mae un olwg arno yn dweud ei fod wrth ei fodd yn y swydd ac yn llawn o syniadau brwdfrydig ar gyfer y dyfodol.

Ganwyd Ian yn Llangrannog, a chafodd ei addysg yn ysgol bentre Pontgarreg ac ysgol eilradd Aberteifi cyn symud ymlaen i Goleg Addysg Abertawe, lle'r ennillodd ei dystysgrif fel athro ac fel gweithiwr gyda mudiadau Ieuenctid.

Ei swydd gyntaf oedd dysgu Celf a Chrefft yn ysgol Llanrhymni, Caerdydd, a thra yno hefyd am bum mlynedd bu'n gweithio yng Nghlwb Ieuenctid Cogan.

Fe wêl y byd o wahaniaeth rhwng Cogan a Chanolfan yr Urdd, ac mae'r ffordd y mae pobl ifainc y Ganolfan yn ymroi yn llawen i'r pethau gorau sy'n perthyn i ddiwylliant Cymru – yn ganu a dawnsio gwerin a dysgu'r iaith ac ati – yn ei blesio'n arw.

Oherwydd hyn fe hoffai yntau ei hun helaethu'r gwaith yma mewn modd ymarferol iawn, felly dyma ei gyhoeddiad i'r Dinesydd:

**Gan gychwyn ar Nos Fawrth Hydref 16 am 6.30, fe fydd 'na ddosbarth yn y Ganolfan i blant ysgol di-Gymraeg o 13-18 oed sy'n awyddus i ddysgu'r iaith neu i adeiladu 'mhellach ar wersi Cymraeg yr ysgol. Hanner awr o wers galed, yna hwyl a sbri trwy gyfrwng yr iaith yn chwarae tennis bwrdd, yn cael paned etc. Pawb sy'n rhy ifanc i fynd i ddosbarthiadau hŷn yr Aelwyd, dowch i hwn. Mae'r athrawon yn barod.**

Hwyl fawr i Ian ap Dewi wrth gychwyn ar ei waith pwysig. Gobeithio na fydd ei wraig a'i fechan drimis oed, Ceindeg Haf, yn gweld eisiau'i gwmni'n ormodol yn eu cartref yng Nghathays! – oherwydd mae Ian am fod yn y Ganolfan yn gyson ac yn croesawu unrhyw un i alw i mewn am sgwrs neu baned neu gêm. Bydd y lle ar agor – a does dim rhaid i neb fod yn perthyn i ryw grŵp arbennig cyn galw i mewn. Gymry'r ddinas – eich canolfan chi yw hwn.

**DYFYNIADAU**

**Gwilym Roberts:** [un sy wedi defnyddio'r ganolfan yn helaeth er y dechrau, llwch a baw neu beidio]:

*"Wel ma hwn yn fendigedig nawr. Fydd 'na siâp ar bethe – mae'r ail lawr yn rhoi cymaint ddwywaith o le, a chyda 150 yn dod yma'n gyson bob wythnos i ddysgu'r Gymraeg mae eisie bob modfedd o'r lle, coeliwch fi!"*

**Glan Roberts** [y pensaer fu'n bennaf gyfrifol am ddiwygio'r hen festri llwm, henffasiwn yn ganolfan olau braf]:

*"Fe ges i gais i edrych ar ryw adeilad yn Heol Conwy yn 1967 a sgrifennu adroddiad arno fe, ond ychydig feddyliais i'r adeg honno y byddwn i ynghlwm wrth y busnes am saith mlynedd!*

*Beth bynnag, rwy'n falch gweld sawl breuddwyd wedi'i gwireddu erbyn hyn – ac mae hynny wedi digwydd heb fod fawr ddim newid yng nghynlluniau gwreiddiol yr adeilad.*

*Rwy'n cofio cael cyngor gan Syr Ifan i beidio a bod yn rhy uchelgeisiol a chadw pob cynllun yn syml – a dyna a wnaed, fe fu syniadau unwaith i roi newydd wedd i furiau allanol yr adeilad ond teimlwyd mai gwell fyddai gwario ar y tu mewn gan mai yn y fan honno y bydd y gwaith.*

*A'm gobaith i nawr yw y caiff y lle ei ddefnyddio – a'i* **barchu.**"

**Alun Guy** [arweinydd Côr yr Aelwyd o'r cychwyn]:

*"Rydyn ni yma nawr ers dau fis, ac yn falch iawn o'n cartre newydd. Ryn ni'n ymhyfrydu ein bod ni wedi gallu cyfrannu rhywbeth bach tuag ato fel côr. Mae'n bleser canu yn y lle golau, hardd hwn."*


11 %
y flwyddyn
11 mis o rybudd
i dynnu allan
Lleiafswm i agor
cyfrif £100
Gellir talu llog heb dynnu
treth incwm oddi wrtho.
Banc Masnachol
Cymru Cyf.
114 - 116 Heol
Eglwys Fair, Caerdydd
Tel: 396131
Cofrestrwyd yn Lloegr:
Rhif 1002110
Anfoner y manylion
os gwelwch yn dda.
Enw ..........................
Cyfeiriad ....................




*Pa bryd mae Gareth Edwards yn riteiro?*




*Glan Roberts*

# CAPEL SOAR

**Dal i fynd o nerth i nerth mae'r achos yn Soar-y-Fro. Mae gwedd lewyrchus iawn ar yr Ysgol Sul gyda deg o blant bach tair a phedair blwydd oed yn y dosbarth cyntaf, chwech o blant pum a chwe blwydd oed yn yr ail ddosbarth a naw o blant dros saith oed yn y trydydd dosbarth. Da yw gallu dweud fod pob un ohonynt yn dod yn gyson. Anfonwn ein llongyfarchiadau i Keith a Lois Bowen, Gwenfo Drive, Gwenfo ar enedigaeth mab, Geraint ar 28ain Medi – un arall i'r Ysgol Sul ymhen rhyw dair blynedd!**

Daw cynulleidfa deilwng ynghyd ar brynhawn Sul cyntaf y mis o hyd, a'r pregethwyr fis Medi a Hydref oedd y Parchedig Huw Griffiths, y Barri a'r Parchedig R. Alun Evans, Caerdydd. Fis Tachwedd fe fydd newid yn y drefn gan mai ar yr ail Sul yn y mis, sef 11eg Tachwedd – y cynhelir y gwasanaeth, a bydd o dan ofal y Parchedig Lyn Rees, Saron, Llandybie.

Yn ystod y drydedd wythnos ym mis Medi bu camerau cwmni Teledu Harlech yn y capel yn ffilmio ar gyfer rhaglen o deyrnged i Saunders Lewis.



**Ateb Sam Slic.**


Park
Hotel
PARK HOTEL
PARK PLACE
CAERDYDD
CF1 3UD
☎ 23471

* Un o brif westai canol dinas Caerdydd.
* Cyfleusterau ardderchog ar gyfer cynadleddau, prydiau bwyd a chyfarfodydd busnes ar gyfer 30 neu 400.
* 97 o ystafelloedd gwlau cyfforddus nifer gyda stafell ymolchi preifat.
* Ystafell grill a phrif ystafell fwyd yn cynnig dewis o fwydydd da.
* Cyfleusterau bar.


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Cysodi a chynllunio gan Cysodi Elgan. Argraffwyd gan "Mid Wales Litho".*